LC1179

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2005

Diben y Rheoliadau yma yw cywiro dau groesgyfeiriad anghywir yn Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005, a hynny cyn iddyn nhw ddod i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwynt canlynol wedi’i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae’r Rheoliadau yma’n diwygio Rheoliadau i Gymru yn unig, sef Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005. Gan fod "(Cymru)" yn rhan o deitl y rheoliadau sy’n cael eu diwygio, fe ddylai ddod o flaen "(Diwygio)" yn nheitl y Rheoliadau yma. Bernir mai mân wall drafftio neu fân wall teipograffyddol yw hwn, y byddai’n briodol ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

## Sylwadau

Mae pwyntiau sy’n ymwneud â fformadu a’r Nodyn Esboniadol wedi’u nodi hefyd fel pwyntiau y

byddai'n briodol eu cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 22 Tachwedd 2005